# Newyddlen SRhP tenantiaid Mawrth 2024

Dyma ein hail newyddlen a ysgrifennwyd gan y chwe Awdurdod Lleol (Cynghorau) yng Ngogledd Cymru ar gyfer Tenantiaid sy'n rhentu gan landlord preifat - a elwir weithiau yn Denantiaid yn y Sector Rhentu Preifat (SRhP).

Y chwe chyngor dan sylw yw Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r wybodaeth y maent yn ei darparu i chi fel tenantiaid preifat ac, i'w gwneud yn haws i chi gysylltu â nhw os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am eich tenantiaeth neu landlord.

Mae'r cynghorau eisiau gwella'r berthynas sydd ganddynt gyda thenantiaid preifat fel eich bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i gysylltu â nhw os oes angen.

**Mae hwn yn brosiect ar y cyd ac rydym ni yn TPAS Cymru yn helpu gyda'r gwaith.**

## Mae'r newyddlen hwn yn edrych ar y **Lwfans Tai Lleol (LTLl).**

Os ydych yn rhentu ystafell neu eiddo gan landlord preifat a'ch bod ar incwm is, efallai y gallwch gael help a hawlio Lwfans Tai Lleol (LTLl).

**Beth yw Lwfans Tai Lleol (LTLl)?**
Mae Lwfans Tai Lleol yn ffordd o gyfrifo Budd-dal Tai ar gyfer pobl sy'n rhentu llety gan landlord preifat. Fe'i cyflwynwyd ym mis Ebrill 2008. Mae'n berthnasol i geisiadau newydd am fudd-daliadau, ac i gwsmeriaid sydd eisoes ar Fudd-dal Tai sy'n newid cyfeiriad neu'n symud i lety a rentir yn breifat.

**Sut mae Lwfans Tai Lleol yn gweithio?**
Mae swm y LTLl yn seiliedig ar yr ardal y mae'r tenant yn rhentu ynddi, nifer y meddianwyr yn yr eiddo a maint yr aelwyd. Mae LTLl yn ffordd decach o gyfrifo Budd-dal Tai, gan ei fod yn gwneud yn siŵr bod tenantiaid ag amgylchiadau tebyg ac sy'n byw yn yr un ardal yn cael yr un faint o help gyda'u rhent.

**Sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar y rhai sydd eisoes ar Fudd-dal Tai?**
Os ydych eisoes ar Fudd-dal Tai, ni fydd hyn yn effeithio arnoch oni bai eich bod yn newid cyfeiriad ac yn symud i lety a rentir gan landlord preifat. Byddech wedyn yn newid i LTLl.

**Sut mae Lwfans Tai Lleol yn cael ei gyfrifo?**
Mae'r Gwasanaeth Rhent yn cyfrifo cyfraddau LTLl ar gyfer pob ardal unigol neu 'Ardaloedd Rhentu Marchnad Eang', fel y'u gelwir. Mae'r cyfraddau'n amrywio ar gyfer pob ardal ac yn dibynnu ar nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo. Edrychir ar y cyfraddau yn fisol.

**Er mwyn gweithio allan y cyfraddau LTLl uchaf y mae angen i chi wybod:**
- Pa gyfradd ystafell wely yr ydych yn gymwys i'w chael.
- Yr Ardal (Rhentu Marchnad Eang) y byddwch yn rhentu ynddi.

**Pa gyfradd ystafell wely ydw i'n gymwys ar ei chyfer?**
Nid nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo yw hyn ond nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen ar eich cartref. Dilynwch y ddolen i weld faint o ystafelloedd gwely rydych chi'n gymwys ar eu cyfer: *https://lha-direct.voa.gov.uk/BedRoomCalculator.aspx*

**Faint yw cyfradd Ystafell Wely LTLl ar gyfer fy Nghod Post?**
Gallwch ddarganfod ym mha Ardal Rhentu Marchnad Eang yr ydych yn rhentu ynddi trwy ddefnyddio'r cyfleuster chwilio Cod Post ar y ddolen isod. Hefyd, trwy ddewis nifer yr ystafelloedd gwely yr ydych yn gymwys ar eu cyfer, gallwch weld y gyfradd LTLl uchaf sy'n berthnasol.

Chwiliwch am gyfraddau Lwfans Tai Lleol yn ôl Cod Post: https://lhadirect.voa.gov.uk/search.aspx

**Faint fyddaf yn ei gael mewn gwirionedd?**
Y cyfraddau LTLl yw'r uchafswm budd-dal y gallwch ei dderbyn. Cofiwch fod LTLl yn fudd-dal **prawf modd*** ac y gallech gael llai nag uchafswm y lwfans. *Bydd hyn yn dibynnu ar yr arian sydd gennych yn dod i mewn ac unrhyw gynilion sydd gennych.

Os yw'r rhent yn fwy na'r lwfans a gewch, bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth neu chwilio am lety arall.

I gael amcangyfrif o faint y mae gennych hawl iddo, gallwch ddefnyddio ein cyfrifiannell budd-daliadau.

**Ble mae'r cyfraddau'n cael eu cyhoeddi?**
Mae'r cyfraddau LTLl cyfredol ar gyfer Ardaloedd Rhentu'r Farchnad Eang i'w gweld ar-lein yma: https://lha-direct.voa.gov.uk/Search.aspx

## Isod mae'r cyfraddau ar gyfer Awdurdodau Lleol/Cynghorau yng Ngogledd Cymru

**Cyfraddau ar gyfer Ynys Môn**

**Cyfraddau cyfredol (tan 31 Mawrth 2024)**
Cyfradd Llety a Rennir: £75.00 yr wythnos (£325*fmc) * fesul mis calendr
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £80.55 yr wythnos (£349.05fmc)
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £103.56 yr wythnos (£448.76fmc)
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £120.82 yr wythnos (£523.55fmc)
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £149.59 yr wythnos (£648.22fmc)

**Cyfraddau newydd (o 1 Ebrill 2024)**
Cyfradd Llety a Rennir: £78.80 yr wythnos (£341.47fmc)
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £90.00 yr wythnos (£390.00fmc)
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £126.58 yr wythnos (£548.51fmc)
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £143.84 yr wythnos (£623.31fmc)
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £172.60 yr wythnos (£747.93fmc)

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Chyngor Ynys Môn ar: 01248 750 057

**Cyfraddau ar gyfer CSB Wrecsam**

**Cyfraddau cyfredol (tan Mawrth 2024)**
Cyfradd Llety a Rennir: £72.84 (£315.64fmc)
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £92.05 (£398.88fmc)
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £113.92 (£493.65fmc)
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £128.88 (£558.48fmc)
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £166.85 (£723.02fmc)

**Cyfraddau newydd (o 1 Ebrill 2024)**
Cyfradd Llety a Rennir: £90.05 yr wythnos (£390.22fmc)
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £109.32 yr wythnos (£473.72fmc)
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £120.82 yr wythnos (£523.55fmc)
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £138.08 yr wythnos (£598.35fmc)
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £172.60 yr wythnos (£747.93fmc)

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Chyngor Wrecsam ar : 01978 292000

**Cyfraddau ar gyfer Conwy o Ebrill 2024**
Cyfradd Llety a Rennir: £78.80 yr wythnos
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £90.90 yr wythnos
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £126.58 yr wythnos
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £149.59 yr wythnos
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £196.77 yr wythnos

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Chyngor Conwy ar: 0300 456 9545

**Cyfraddau ar gyfer Cyngor Sir y Fflint**
Cyfradd Llety a Rennir: £87.50 yr wythnos
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £92.05 yr wythnos
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £120.82 yr wythnos
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £136.93 yr wythnos
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £184.11 yr wythnos
Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Chyngor Sir y Fflint ar: 01352 702121

**Cyfraddau ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych (yn ddibynol ar yr ardal**

**Cyfraddau cyfredol tan diwedd Mawrth 2024**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Llety a Rennir: | £58.95 | £78.80 | **£78.80** |
| Cyfradd Un Ystaflell Wely: | £74.79 | £80.55 | **£80.55** |
| Cyfradd Dwy Ysafell Wely: | £87.45 | £100.00 | **£100.00** |
| Cyfradd Tair Ystafell Wely: | £103.56 | £125.00 | **£125.00** |
| Cyfradd Pedair Ystafell Wely | £120.82 | £155.34 | **£155.34** |

**Cyfraddau o Ebrill 2024 – codau post o LL16, LL17, LL18, LL19, LL22, CH7 & CH8**

Cyfradd Llety a Rennir: £342.40
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £394.98
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £550.02
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £650.00
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £855.01

**Cyfraddau o Ebrill 2024 – codau post o LL11, LL12, LL15, LL20 & LL21**

Cyfradd Llety a Rennir: £391.29
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £475.02
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £524.99
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £599.99
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £749.99

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Denbighshire council on: 01824 712422

**Cyfraddau ar gyfer Gwynedd**

**Cyfraddau ar gyfr y flwyddyn gyfredol tan diwedd Mawrth 2024**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Llety a Rennir: | £58.95 | £78.80 | **£78.80** |
| Cyfradd Un Ystaflell Wely: | £74.79 | £80.55 | **£80.55** |
| Cyfradd Dwy Ysafell Wely: | £87.45 | £100.00 | **£100.00** |
| Cyfradd Tair Ystafell Wely: | £103.56 | £125.00 | **£125.00** |
| Cyfradd Pedair Ystafell Wely: | £120.82 | £155.34 | **£155.34** |

**Cyfraddau o Ebrill 2024**

Cyfradd Llety a Rennir:
Cyfradd Un Ystaflell Wely: £80.00
Cyfradd Dwy Ysafell Wely: £113.92
Cyfradd Tair Ystafell Wely: £132.33
Cyfradd Pedair Ystafell Wely: £166.85

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Chyngor Gwynedd ar: 01766 771000

## Beth os yw eich landlord preifat eisiau cynyddu eich rhent?

Mae’n rhaid i’ch landlord preifat roi 2 fis o rybudd i chi os yw’n bwriadu cynyddu eich rhent.

Mae’r Ddeddf Rhentu Cartrefi yn golygu na all landlordiaid gynyddu eich rhent lai na 12 mis ar ôl iddo godi o’r blaen. Os nad ydych ar gontract cyfnod penodol efallai y byddant yn cynyddu eich rhent yn y flwyddyn gyntaf. Ond ar ôl hynny ni allant ei gynyddu eto mewn llai na 12 mis.

Mae’r Ddeddf Rhentu Cartrefi hefyd yn datgan bod yn rhaid i’ch landlord roi 2 fis o rybudd i chi o unrhyw gynnydd mewn rhent.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â'ch cyngor lleol sydd â staff yno i gefnogi tenantiaid rhentu preifat.

**Os ydych yn wynebu digartrefedd…..**

Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol (Cyngor) cyn gynted â phosibl, os ydych yn ofni y gallech gael eich gwneud yn ddigartref. Mae’r Awdurdod Lleol (Cyngor) yno i’ch helpu a’ch cynghori fel tenant preifat ac i’ch cefnogi i’ch atal rhag dod yn ddigartref.

Dyma rifau ffôn y Cynghorau Sir (Awdurdodau Lleol) yng ngogledd Cymru:

Sir y Fflint: 01352 702121
Conwy: 0300 124 0050
Sir Ddinbych: 01824 708367
Ynys Môn: 01248 750 057
Wrecsam: 01978 292000
Gwynedd: 01766 771000

Sefydliadau eraill a all eich helpu yw:

**Shelter Cymru:**
Gwefan: https://sheltercymru.org.uk/get-help/
Llinell gymorth frys: 08000 495 495
Llinell gymorth ar agor: o 9am - 4pm Dydd Llun i Ddydd Gwener
https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/webchat/
Sgwrs we: ar agor 9am – 4pm Dydd Llun i Ddydd Gwener

SHELTER CYMRU